

# Cylchlythyr | Circular

## Astudiaethau Cymru

**Dyddiad:** 19 Hydref 2018  
**Cyfeirnod:** W18/25HE  
**At:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn  
uniongyrchol yng Nghymru  
**Ymateb erbyn:** 23 Tachwedd 2018  
**Cyswllt:** Enw: Savanna Jones  
Rhif Ffôn: 029 2085 9737  
E-bost: [savanna.jones@hefcw.ac.uk](mailto:savanna.jones@hefcw.ac.uk)

Mae'r cylchlythyr hwn yn gofyn i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol ddarparu gwybodaeth am gyfran Astudiaethau Cymru mewn addysg uwch fel sail i lansiad Cymdeithas Ddysgedig Cymru i dathlu a chefnogi Astudiaethau Cymru.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat arall hygyrch, anfonwch e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn gofyn i sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol ddarparu gwybodaeth am gyfran Astudiaethau Cymru mewn addysg uwch fel sail i lansiad Cymdeithas Ddysgedig Cymru i ddathlu a chefnogi Astudiaethau Cymru (a arferai gael ei adnabod fel Astudiaethau Cymraeg).

## Cefndir

2. Yn 2012/13, derbyniodd CCAUC ei lythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC "barhau i ganolbwyntio ar ddarparu dysgu cyfrwng Cymraeg a'r disgyblaethau y gellid eu galw'n Astudiaethau Cymraeg, gan gynnwys astudio hanes a llenyddiaeth, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth Cymru yn y ddwy iaith" ymhlith pynciau eraill o bwysigrwydd penodol. Cynhaliodd CCAUC arolwg gyda sefydliadau ar gyfran y ddarpariaeth oedd yn cynnwys astudiaethau Cymraeg. Wedyn cynhaliodd CCAUC ddigwyddiad yn rhoi sylw i astudiaethau Cymraeg ym mis Tachwedd 2013. Cyhoeddwyd y canlyniadau hyn yng [Nghylchlythyr W14/29HE](#).
3. Hefyd cadarnhaodd Cylchlythyr W14/29HE y byddai Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n bwrw ymlaen â'r cysyniad o astudiaethau Cymraeg, yn cynnwys addysgu ac ymchwil. Byddai hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r sector a phartion eraill â diddordeb, gyda'r nod o edrych ar sut gellid diffinio Astudiaethau Cymraeg yn y ffordd fwyaf priodol fel maes pwnc eang a sut orau i'w ddiogelu a'i ddatblygu mewn sefydliadau addysg uwch unigol a ledled y sector.
4. Mae'r Gymdeithas Ddysgedig wedi sefydlu Grŵp Llywio Astudiaethau Cymru. Nod y rhwydwaith ledled Cymru hwn o unigolion a sefydliadau yw dathlu a chefnogi gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ymchwil, ar draws yr holl ddisgyblaethau, a'i seilwaith angenrheidiol, i Gymru fel maes pwnc, gan gynnwys ffyniant celfyddydau cain a pherfformio. Mae'n cynnwys bron pob sefydliad cenedlaethol a rhanbarthol mawr sy'n ymwneud ag ymchwil, cefnogi ymchwil a hybu'r celfyddydau cain a pherfformio gyda ffocws ar Gymru.
5. Mae'r Grŵp Llywio'n bwriadu lansio llyfryn ym mis Ebrill 2019 yn tynnu sylw at esiamplau o'r gwaith sydd wedi'i wneud, gwaith sydd ar droed a phrosiectau hanfodol yn y dyfodol sydd angen buddsoddiad, gyda'r nod yn y pen draw o annog sefydlu grŵp trawsbleidiol o Aelodau cenedlaethol i ddangos diddordeb mewn, perchnogi, a hybu'r agweddau hyn yng Nghymru a thu hwnt.
6. Cynghorodd y Grŵp Llywio y byddai'n ddefnyddiol i CCAUC gynnal arolwg dilynol i benderfynu a oedd y ddarpariaeth wedi cynyddu yn y meysydd uchod yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

## Cwmpas yr arolwg

7. Fel yn yr arolwg blaenorol, rydym yn gofyn i sefydliadau'n uniongyrchol am y data hyn, er mwyn gallu cyflwyno darlun o'r sefyllfa bresennol. Wedyn byddwn yn gallu cymharu'r data hyn â'r data a gasglwyd yn yr arolwg cyntaf. Rydym wedi gwneud gwaith rhagarweiniol ar hyn i leihau'r baich ar sefydliadau drwy ddarparu'r data hyn.
8. Er bod yr arolwg yn ymwneud yn bennaf unwaith eto â'r ddapariaeth a ddysgir, rydym yn gofyn i sefydliadau roi syniad o sut mae proffil a gweithgarwch ymchwil mewn disgyblaethau perthnasol yn cyfrannu at ymchwil ac ysgoloriaeth yn Astudiaethau Cymru.
9. Rydym wedi penderfynu defnyddio'r un meysydd pwnc â'r arolwg blaenorol i gael data cymharol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod darpariaeth bellach ar gael yn awr efallai sy'n crynhoi beth ellid ei gynnwys o dan "diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth" yng nghynnwys Astudiaethau Cymru.
10. Mae'r arolwg yn galluogi i sefydliadau wneud addasiadau rhesymol i raddfa Astudiaethau Cymru a gynhwysir yn eu darpariaeth ai peidio. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu y gall ymwybyddiaeth o iaith a dwyieithrwydd gael eu hystyried fel rhan o Astudiaethau Cymru at bwrpas yr arolwg.
11. Gan fod gofyn am ddata cymharol, byddwn yn canolbwyntio ar feysydd pwnc penodol yr ydym yn eu hystyried fel rhai a allai fod â chynnwys Astudiaethau Cymru arwyddocaol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan sefydliadau ddarpariaeth ychwanegol a ystyrir ganddynt hwy fel darpariaeth sy'n perthyn i'r arolwg hwn. Felly gofynnir i chi ystyried a oes unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn perthyn i'r arolwg hwn a darparu gwybodaeth fel sy'n briodol.
12. Yn unol â'r arolwg blaenorol, rydym wedi nodi'r pynciau canlynol fel y pynciau sydd fwyaf tebygol o gynnwys Astudiaethau Cymru:
  - Gwleidyddiaeth
  - Daearyddiaeth
  - Y Gyfraith
  - Twristiaeth
  - Ieithyddiaeth
  - Llenyddiaeth Saesneg
  - Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg
  - Astudiaethau Celtaidd
  - Hanes
  - Cerddoriaeth
  - Drama/Theatr/Ffilm
  - Addysg

At ddiben cyfeirio hwylus, byddwn yn cyfeirio at y pynciau hyn fel y “**prif bynciau**”. Cyfeirir at feysydd pwnc eraill a nodir gan sefydliadau at bwrpas yr arolwg hwn fel “**pynciau eraill**”.

13. Rydym yn cadarnhau nad dim ond iaith y cyflwyno yw unig ffocws Astudiaethau Cymru. Rydym yn disgwyl gweld cyfeirio at Astudiaethau Cymru mewn darpariaeth a gyflwynir yn y Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn cydnabod na fydd rhai modiwlau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys llawer o elfennau Astudiaethau Cymru, os o gwbl.
14. Rydym wedi cydnabod dwy elfen i'r arolwg hwn:
  - a. Adnabod modiwlau penodol sydd â chyd-destun Astudiaethau Cymru
  - b. Sylwebaeth gan sefydliadau ar feysydd pwnc a disgyblaethau amrywiol lle mae Astudiaethau Cymru'n rhan o'r cwricwlwm.
15. Rydym wedi penderfynu peidio â chynnwys y Brifysgol Agored yn yr arolwg modiwlau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull o weithredu yn yr arolwg blaenorol. Gweler paragraff 35 ar gyfer sut rydym yn cynghori'r Brifysgol Agored i gyfrannu at yr arolwg.
16. Mae'r arolwg hwn y cynnwys sefydliadau addysg bellach (SABau) a gyllidir yn uniongyrchol sy'n cyflwyno darpariaeth. Rydym yn nodi nad oedd SABau wedi'u darparu gyda rhestr y prif bynciau ar gyfer yr arolwg blaenorol gan nid oeddynt wedi cyflwyno data HESA ar y pryd. Ar gyfer yr arolwg hwn rydym yn disgwyl i SABau sy'n cyflwyno darpariaeth AU gyflwyno ymatebion priodol.

#### **a. Arolwg Modiwlau**

17. Rydym wedi edrych ar deitlau modiwlau'r ddarpariaeth yn nata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer 2016/17 am godau canlynol y System Godio Academiaidd ar y Cyd (JACS), sy'n adlewyrchu'r prif bynciau. Rydym wedi defnyddio'r rhain fel man cychwyn. Mae rhai codau JACS wedi newid ers yr arolwg diwethaf yn unol â JACS 3.0 ac adlewyrchir hyn isod:
  - L200 i L290: Gwleidyddiaeth
  - L700, L711, L720 i L727: Daearyddiaeth
  - M100, M110 i M112, M200: Y Gyfraith
  - N800, N830 i N832, N870: Lletygarwch, Hamdden, Twristiaeth a Thrafnidiaeth
  - Q100 i Q190: Ieithyddiaeth
  - Q200, Q210: Astudiaethau llenyddol cymharol
  - Q300, Q310, Q320 i Q323, Q330, Q390: Iaith a llenyddiaeth Saesneg
  - Q560 i Q561: Iaith a llenyddiaeth Gymraeg
  - Q910, Q920: Cyfieithu
  - V100 i V490: Hanes ac Archeoleg
  - W300 i W390: Cerddoriaeth
  - W400 i W490: Drama, Theatr

- W510, W540, W550, W590: Dawns
- W600 i W690: Sinemateg a Ffotograffiaeth
- W800, W810, W820, W830, W890: Ysgrifennu dychmygus

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid ydym yn dymuno rhoi baich diangen ar sefydliadau ac felly rydym wedi dewis y prif bynciau canlynol fel man cychwyn fel pynciau sy'n hynod debygol o fod â chynnwys Astudiaethau Cymru. Rydym yn cydnabod nad yw cynnwys Astudiaethau Cymru'n glir os yw modiwl yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau neu bwnc cyffredinol, ac y gall cynnwys y pwnc amrywio o sefydliad i sefydliad.

18. Rydym yn disgwyl i sefydliadau fod yn gadarn eu dull o weithredu o ran y dull o weithredu ym mharagraff 17 i benderfynu ar y ddarpariaeth sy'n cynnwys Astudiaethau Cymru. Nid yw modiwlau gyda Chymru neu Gymraeg yn eu teitl, neu deitl yn y Gymraeg, wedi cael eu dewis yn awtomatig ar gyfer ein rhestr. Rydym wedi defnyddio'r un broses o wneud penderfyniadau gyda theitlau yn Saesneg wrth ystyried a oes ganddynt gynnwys Astudiaethau Cymru.
19. Ar gyfer pob modiwl a ystyrir fel un ag elfen o Astudiaethau Cymru, gofynnwn i chi ddynodi'r gyfran gynrychioliadol o beth sy'n creu hyn. Byddwn yn darparu tabl (Tabl A) i bob sefydliad ar gyfer pob modiwl. Mae'r cyfrannau rydym yn eu hystyried ar gyfer hyn yn cynnwys llai na 50%; 50% i 75%; a mwy na 75%. Hefyd rydym yn cydnabod y bydd gennych fodiwlau sydd wedi dod i ben ers yr arolwg diwethaf yn 2011/12 ac efallai byddwch eisieu cynnwys modiwlau newydd ers 2016/17. Os ydych yn dymuno gallwch ychwanegu'r rhain at y rhestr ar wahân.
20. Byddwn yn darparu i bob sefydliad restr o fodiwlau Astudiaethau Cymru a dynnwyd allan (**Tabl A**), yn ogystal â rhestr gyda modiwlau na wnaethom eu cynnwys (**Tabl B**).
21. Mae **Atodiad A** yn manylu ar yr egwyddorion cyffredinol rydym wedi'u defnyddio wrth ddewis modiwlau, yn unol â dull mwy penodol o weithredu gyda chodau JACS.
22. Rydym wedi nodi Addysg fel un o'r meysydd pwnc allweddol i sefydliadau edrych yn fanwl arno. Fodd bynnag, nid ydym wedi cynnwys Addysg ar y rhestr o fodiwlau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mharagraffau 27 i 29.

### **b. Sylwebaeth ar Astudiaethau Cymru**

23. Rhennir y sylwebaeth ar ddarpariaeth Astudiaethau Cymru rhwng dau categori, sef "**prif bynciau**" a "**pynciau eraill**".
24. Os yw sefydliadau'n credu bod eu cenhadaeth a'u diwylliant sefydliadol cyffredinol yn cyfrannu at gefnogi Astudiaethau Cymru, hoffem i chi gynnwys paragraff ategol byr yn eich ymateb.

## **Prif bynciau**

25. Ar gyfer pob un o'r prif bynciau, os ydynt yn digwydd yn eich cwricwlwm, rhowch sylwebaeth sy'n rhoi sylw i bwyntiau fel y canlynol:
- Lle Astudiaethau Cymru yn narpariaeth gyffredinol y pwnc  
Er enghraifft:
    - y cyfraniad tuag at ddealltwriaeth y myfyrwyr o hanes, llenyddiaeth, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth Cymru;
    - ei berthnasedd i gwricwlwm priodol;
    - a yw'r elfen Astudiaethau Cymru yn hanfodol neu'n ddymunol ac i ba raddau y mae'n orfodol; a
    - y camau a gymerwyd i gynnal neu wella'r agwedd Astudiaethau Cymru.
  - Poblogrwydd ymhlith myfyrwyr  
Er enghraifft:
    - pa mor atyniadol yw'r modiwlau lle mae ffocws y rhaglenni ar Astudiaethau Cymru yn llwyr;
    - nifer y myfyrwyr yn astudio modiwlau Astudiaethau Cymru; ac
    - a yw'r myfyrwyr yn ffafrio modiwlau sy'n cynnwys elfen o Astudiaethau Cymru.
  - Darpariaeth cyfrwng Cymraeg  
Er enghraifft:
    - y cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth Astudiaethau Cymru Gymraeg a Saesneg;
    - a ymgwymerir â darpariaeth Astudiaethau Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf; ac
    - a yw darpariaeth Astudiaethau Cymru ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.
  - Ymchwil  
Er enghraifft:
    - i ba raddau mae ffocws y gweithgarwch ymchwil ar Astudiaethau Cymru; ac
    - ei gyfraniad at ymchwil ac ysgoloriaeth yn ansawdd y ddisgyblaeth yn gyffredinol, yn ogystal ag at ymchwil penodol i Gymru.
  - Yr **heriau** rydych yn eu hwynebu o ran cynnal neu wella darpariaeth Astudiaethau Cymru ar unwaith neu yn y tymor hwy
  - **Ffactorau eraill** yr ydych eisiau tynnu ein sylw atynt efallai
26. Dylid defnyddio'r rhestr uchod fel canllaw i roi barn ar asesiad o gwmpas y cryfderau a'r heriau y bydd Astudiaethau Cymru'n eu hwynebu yn y sector, a'r cyflawniadau posib.
27. Cadwch yr ymatebion yn fyr, dim mwy na dwy ochr A4.

## Addysg

28. Nid ydym wedi cynnwys Addysg ar restr y modiwlau am resymau a esbonnir uchod. Mae agweddau ar addysg yn cynnwys amrywiaeth eang o ddarpariaeth sy'n cyfeirio, neu ddim, at Astudiaethau Cymru i raddau mwy neu lai. Byddai'n anodd felly penderfynu ar y modiwlau ystyrlon heb gyd-destun y cwricwlwm. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys y maes pwnc hwn yn ein harolwg.
29. Mae'r "Cwricwlwm Cymreig" yn parhau'n ofyniad allweddol mewn hyfforddiant fel rhan o addysg gychwynnol athrawon (AGA) ar gyfer addysgu mewn ysgolion. Rydym yn ystyried y byddai'n adlewyrchu darpariaeth gan Astudiaethau Cymru. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i ddarparwyr AGA gynghori ar sut i gyflawni'r gofyniad hwn.
30. Rydym yn cydnabod y bydd ffocws tebyg i'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei gynnwys mewn darpariaeth arall sy'n cynnwys addysg mewn ysgol. Rydym yn disgwyl i hyfforddiant ar gyfer lleoliadau eraill ym myd addysg gynnwys neu ofyn am ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd, ac efallai y bydd angen ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o gyd-destun hanesyddol, gwleidyddol, cyfreithiol a diwylliannol Cymru. Byddem yn ddiolchgar pe bai sefydliadau'n gallu cynnwys yn eu hymateb gyfeiriad penodol at sut adlewyrchir Astudiaethau Cymru yn eu portffolios addysg. Gall fod yn ddefnyddiol nodi modiwlau penodol wrth gyfeirio at Astudiaethau Cymru.

## Astudiaethau Celtaidd

31. Rydym yn deall bod y ddarpariaeth iaith a llenyddiaeth Geltaidd yn digwydd fel rheol drwy gyfrwng adrannau Cymraeg mewn sefydliadau. Felly, gofynnwn i chi gynnwys cyfeiriad penodol at sut ymgorfforir Astudiaethau Cymru yn yr Astudiaethau Celtaidd, ac i ba raddau.

## Pynciau eraill

32. Rydym yn nodi nad yw'r rhestr o fodiwlau sydd wedi'i darparu'n rhestr gyflawn ac yn gwahodd sefydliadau i ddarparu i ni sylwebaeth fer ar a ydych yn ystyried bod darpariaeth arall yn cynnwys Astudiaethau Cymru. Cofiwch dynnu ein sylw at ddarpariaeth sydd â ffocws cadarn penodol ar gynnwys Astudiaethau Cymru.
33. Mae pynciau eraill a all gynnwys Astudiaethau Cymru wedi'u datgan yn erbyn y codau JACS yn **Atodiad B**. Rydym yn disgwyl i sefydliadau nodi lle maent yn ystyried y cynnwys yn y meysydd hyn fel cynnwys "ddim yn arwyddocaol" neu "ddim yn berthnasol".

## **Rhaglenni trawsgwricwlaidd neu ryngddisgyblaethol**

34. Rydym wedi canolbwyntio yn bennaf ar feysydd pwnc penodol at bwrpas yr arolwg hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod myfyrwyr yn astudio graddau cyfun neu ar y cyd sy'n cynnwys Astudiaethau Cymru mewn mwy nag un ddisgyblaeth. Felly byddai'n ddefnyddiol pe bai sefydliadau'n nodi a yw darpariaeth Astudiaethau Cymru'n cael ei chyflwyno drwy gyfrwng rhaglenni rhyngddisgyblaethol penodol.

## **Y Brifysgol Agored yng Nghymru**

35. Nid ydym wedi cynnwys y Brifysgol Agored yn yr arolwg modiwlau hwn gan fod ei chyrsgiau'n cael eu cyflwyno ar lefel y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhai rhaglenni a modiwlau'n cynnwys darpariaeth Astudiaethau Cymru y dylid ei chynnwys yng nghanfyddiadau'r arolwg hwn. Felly rydym yn gwahodd y Brifysgol Agored i ddarparu sylwebaeth briodol ar ei chyfraniad at Astudiaethau Cymru. Byddem yn annog cyfeirio at fodiwlau penodol.

## **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

36. Rydym yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a byddwn yn rhannu canfyddiadau'r arolwg hwn yn ystod y cyfarfodydd cyswllt eleni.

## **Amserlen**

37. Byddwn yn anfon rhestrï modiwlau (Tablau A a B) allan at sefydliadau unigol ar e-bost, at yr Is-Ganghellor a chysylltiadau data'r sefydliadau, erbyn 26 Hydref 2018.
38. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon eich ymatebion ar e-bost at Savanna Jones ([savanna.jones@hefcw.ac.uk](mailto:savanna.jones@hefcw.ac.uk)) erbyn 23 Tachwedd 2018.

## **Rhagor o wybodaeth / ymatebion i**

39. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Savanna Jones (rhif ffôn 029 2085 9737; e-bost [savanna.jones@hefcw.ac.uk](mailto:savanna.jones@hefcw.ac.uk)).



### Dewis modiwlau

Byddwn yn anfon i bob sefydliad restr o'u modiwlau, o'r prif pynciau, lle rydym yn ystyried bod cynnwys Astudiaethau Cymru (**Tabl A**) a rhestr o'r modiwlau lle nad yw hyn yn debygol (**Tabl B**).

Wrth baratoi **Tabl A**, rydym wedi cynnwys modiwlau lle mae'r teitlau'n dynodi'n glir eu bod yn cynnwys Astudiaethau Cymru neu fod rhywfaint o gynnwys Astudiaethau Cymru'n ymddangos yn debygol.

Fel y nodwyd ym mharagraff 11 y cylchlythyr, efallai ein bod wedi eithrio modiwlau sydd â chynnwys Astudiaethau Cymru a nodir yn **Nhabl B**. Byddem yn gwahodd sefydliadau i gynnwys y pynciau maent yn tybio sydd â chynnwys Astudiaethau Cymru yn **Nhabl B**.

Rydym yn cydnabod y bydd modiwlau efallai sy'n cynnwys elfen Astudiaethau Cymru fechan iawn ac efallai y bydd y sefydliad yn ffafrio delio â hyn mewn ffordd naratif drwy ei sylwebaeth.

Nid yw modiwlau sy'n cynnwys prosiectau estynedig, traethodau hir ar bynciau arbennig, profiad gwaith, ac ati, wedi cael sylw yn gyffredinol, oni bai ei bod yn glir oddi wrth y teitlau bod y rhain yn cynnwys Astudiaethau Cymru. Hefyd mae modiwlau ymchwil ôl-radd wedi'u heithrio, ond byddem yn gwahodd sefydliadau i gynghori ar gynnwys Astudiaethau Cymru yn eu sylwebaeth unigol.

### Gwleidyddiaeth (L200 i L290)

Mae modiwlau gyda chyd-destun Prydeinig neu'r DU wedi cael eu cynnwys. Mae'r modiwlau sydd wedi'u heithrio'n cynnwys y rhai sy'n ymwneud â materion rhyngwladol ac Ewrop/yr Undeb Ewropeaidd, a modiwlau ar bynciau neu agweddau penodol ar y ddisgyblaeth. Rydym wedi cynnwys modiwlau sydd â theitl sy'n cyfeirio at gynnwys Astudiaethau Cymru.

### Daeryddiaeth (L700 i L711, L720 i L727)

Yn gyffredinol rydym wedi cynnwys modiwlau o dan y codau uchod, gan fod teitlau'r modiwlau'n cydnabod meysydd craidd y ddisgyblaeth y gellir disgwyl eu bod yn cynnwys daeryddiaeth Brydeinig a Chymreig.

### Y Gyfraith (M100, M110, M112, M200)

Rydym wedi cynnwys modiwlau lle mae'r teitlau'n dynodi eu bod yn debygol o gynnwys y system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Mae modiwlau sy'n delio ag agweddau penodol ar y gyfraith ee, cyfraith contractau, cyfraith cwmnïau, wedi'u heithrio.

### Lletygarwch, Hamdden, Twristiaeth a Thrafnidiaeth (N800, N830 i N832, N870)

Yn gyffredinol, wrth edrych ar y codau hyn, mae modiwlau a ymddangosodd o dan y codau hyn sy'n rhoi sylw i reoli chwaraeon a hamdden ac ati wedi cael eu heithrio. Mae ein ffocws wedi bod ar dwristiaeth mewn cyd-destun Cymreig.

**Ieithyddiaeth (Q100 i Q190)**

Yn gyffredinol rydym wedi cynnwys modiwlau lle mae'r teitlau'n dynodi ffocws ar yr iaith Gymraeg neu ddwyieithrwydd. Rydym yn cydnabod bod y modiwlau hyn yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau a bod amrywiad efallai yng nghynnwys Astudiaethau Cymru yn y sefydliadau unigol.

**Llenyddiaeth Saesneg (Q300, Q310, Q320 i Q323, Q330, Q390)**

Yn gyffredinol dim ond modiwlau sy'n cyfeirio'n benodol at Gymru, y Gymraeg neu lenyddiaeth Eingl-Gymreig sydd wedi'u cynnwys. Rydym yn cydnabod er hynny y gall awduron a beirdd o Gymru gael eu cynnwys wrth astudio cyfnodau neu *genres* penodol.

**Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Q560, Q561)**

Rydym wedi cynnwys mwyafrif y modiwlau yma, ac eithrio efallai rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg cyffredinol ar sgiliau astudio neu ddatblygiad personol, ac ati, nad ydynt yn debygol o fod â chynnwys Astudiaethau Cymru penodol.

**Cyfieithu (Q910, Q920)**

Yn gyffredinol, dim ond modiwlau sydd â'r Gymraeg fel un o'r ieithoedd ydym wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall modiwlau sy'n delio ag egwyddorion cyffredinol neu agweddau arbenigol ar gyfieithu gynnwys cyfeiriad at yr iaith Gymraeg/cyd-destun Gymreig.

**Hanes ac Archeoleg (V100 i V490)**

Rydym wedi cynnwys modiwlau hanes Cymru yn ogystal â modiwlau sy'n cynnwys cyfnodau o Hanes Prydeinig neu Ewropeaidd oherwydd byddem yn disgwyl i elfen o hanes Cymru gael ei chynnwys. Rydym wedi gweithredu mewn ffordd debyg gydag archeoleg.

**Cerddoriaeth (W300 i W390)**

Mae llawer o'r modiwlau o dan y codau hyn yn cynnwys astudiaethau offerynnol, cyfansoddi, offeryniaeth ac ati, neu nid oeddent yn awgrymu fel arall gyd-destun neu elfen Astudiaethau Cymru. Mae'r modiwlau hyn wedi cael eu heithrio.

**Drama/Theatr/Dawns/Ffotograffiaeth/Celfyddydau creadigol amrywiol (W400 i W490, W500 i W590, W600 i W690, W800 i W90 a W900)**

Yn gyffredinol, dim ond modiwlau lle mae cynnwys Astudiaethau Cymru'n gymharol amlwg sydd wedi'u cynnwys. Ar gyfer modiwlau cyfrwng Cymraeg, rydym wedi ystyried y rhain yng nghyd-destun yr amrywiaeth gyffredinol o fodiwlau a gynnigir gan sefydliad. Rydym wedi eithrio'r rhain yn aml gan eu bod yn ymddangos fel pe baent yn adlewyrchu modiwlau Saesneg, sydd wedi'u heithrio hefyd. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi y gall rhywfaint o'r modiwlau yn y Gymraeg a'r Saesneg fod â chynnwys Astudiaethau Cymru.

**Ysgrifennu dychmygus (W800 i W890)**

Dim ond modiwlau ysgrifennu creadigol cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cynnwys gennym. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhai modiwlau cyfrwng Saesneg yn cynnwys cyd-destun Gymreig neu Gymru.

**A Meddygaeth a Deintyddiaeth**  
**B Pynciau Cysylltiedig â Meddygaeth**

Yn y disgyblaethau hyn, efallai y bydd y myfyrwyr angen dealltwriaeth o'r cyd-destun cyfreithiol a gwleidyddol yng Nghymru, gan gynnwys datganoli a'i oblygiadau i drefniadaeth y gwasanaeth iechyd. Gall ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yn ogystal â dwyieithrwydd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg fod wedi'u cynnwys hefyd.

**C Gwyddorau Biolegol**

Gall gwaith maes neu esiamplau o astudiaethau arbennig gynnwys lleoliadau neu sefyllfaoedd yng Nghymru sydd, yn eu tro, angen i fyfyrwyr gael dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol, cyfreithiol a gwleidyddol yng Nghymru. Gall agweddau ar Seicoleg ofyn am ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

**D Gwyddorau milfeddygol, amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig**

Yn y disgyblaethau hyn, efallai y bydd y myfyrwyr angen dealltwriaeth o'r cyd-destun cyfreithiol, gwleidyddol, diwylliannol a hanesyddol yng Nghymru, gan gynnwys datganoli, yn enwedig ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, rheolaeth amgylcheddol, rheoli treftadaeth, ac ati.

**K Pensaerniaeth, adeiladu a chynllunio**

Gall cyd-destun diwylliannol neu hanesyddol amgylcheddau Cymru ac astudiaethau achos, yn ogystal â gwybodaeth am oblygiadau cyfreithiol a gwleidyddol datganoli i gynllunio a datblygu ac ati fod yn gysylltiedig â'r disgyblaethau uchod.

**L Astudiaethau Cymdeithasol**

Gallai agweddau ar Astudiaethau Cymru godi yn y grwpiau pwnc uchod, y tu hwnt i wleidyddiaeth a daearyddiaeth, sydd wedi'u datgan fel prif bynciau, er enghraifft, mewn economeg a chymdeithaseg. Gellir disgwyl i bolisi cymdeithasol yn benodol ofyn am ddealltwriaeth o'r cyd-destun diwylliannol, cyfreithiol a gwleidyddol yng Nghymru. Efallai y bydd ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a bod yn gyfarwydd â hi'n ofynnol ar gyfer cymwysterau proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol a meysydd cysylltiedig.

**P Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth**

Gall gwasanaethau gwybodaeth (gan gynnwys llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac astudiaethau archifau) a Newyddiaduraeth gynnwys agweddau ar Astudiaethau Cymru, yn enwedig os yw'r cwrs yn paratoi myfyrwyr i weithio yn y proffesiynau hyn yng Nghymru.